



# Garddwriaeth Cymru Horticulture Wales

**Canllaw ymarferol i fusnesau  
Lleihau gwastraff mewn garddwriaeth**

## **Lleihau gwastraff mewn garddwriaeth: Canllaw ymarferol i fusnesau**

### **Ynglŷn â'r canllaw hwn**

Mae'r gost gynyddol sydd ynghlwm wrth waredu gwastraff, yr effeithiau amgylcheddol dilynol, fel nwyon tŷ gwydr a llygredd dŵr, ynghyd â deddfwriaeth newydd a mwy o alw yn y farchnad, yn ffactorau sy'n sbarduno busnesau i leihau eu gwastraff.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i fusnesau garddwriaethol wybod ble y mae'r gwastraff yn digwydd yn eu prosesau, y mathau o wastraff a gynhyrchir a'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i atal neu leihau gwastraff rhag digwydd.

Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno ffyrdd ymarferol y gall busnesau garddwriaethol eu rhoi ar waith i atal a lleihau mathau cyffredin o wastraff rhag cael eu cynhyrchu yn eu gweithrediadau. Mae'n cynnwys tair adran gyda chamau ymarferol ym mhob un, sydd â'r bwriad o greu cynllun lleihau gwastraff yn y pen draw.

Mae'n un o blith cyfres o ganllawiau ymarferol y mae Garddwriaeth Cymru yn eu llunio ar gyfer y diwydiant. Nid yw'n ymdrin â gwastraff dŵr na gwastraff cemegol – ymdrinnir â'r rhain ar wahân.

### **Oeddech chi'n gwybod?**

- Bydd y dreth dirlenwi'n codi i £94.15 / tunnell ym mis Ebrill 2020.
- Er mwyn helpu i liniaru newid hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu rhwymedigaethau cyfreithiol i arwain at leihad o 80% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Disgwylir i fusnesau sy'n dymuno cael cymorth gan Lywodraeth Cymru ddangos y dulliau a roddir ar waith ganddynt i gyrraedd y nod hwn.

## 1. Cyfeiriadur deunyddiau gwastraff cyffredin

Gall y gwastraff a gaiff ei greu mewn garddwriaeth amrywio o ran math, amllder a swm. Gall hyn ddibynnu ar beth a gaiff ei gynhyrchu a sut y bydd yn cyrraedd y cwsmer. Yn y tabl isod ceir gwybodaeth gryno am y mathau cyffredin o wastraff sy'n deillio o weithrediadau garddwriaeth.

**Cam 1:** Defnyddiwch y rhestr isod i weld pa fathau o ddeunyddiau gwastraff sy'n deillio o'ch gweithrediadau.

Deunydd gwastraff	Defnydd nodweddiadol	Camau ataliol
<b>Metel</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Trolïau</li> <li>- Hambyrddau</li> <li>- Caniau</li> <li>- Ffoil</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- durol, modd ei aildddefnyddio</li> <li>- gellir ailgylchu alwminiwm a dur yn rhwydd</li> </ul>
<b>Pren</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Paledau</li> <li>- Cratiau</li> <li>- Stwff llenwi tyllau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir compostio sglodion a naddion coed gyda gwastraff gardd</li> <li>- gellir aildddefnyddio neu ailgylchu stripiau ac estyll</li> </ul>
<b>Gwydr</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- poteli</li> <li>- jarïau</li> <li>- ffenestri</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- hawdd ei ailgylchu</li> <li>- gellir diheintio ac aildddefnyddio deunyddiau pecynnu</li> </ul>
<b>Plastig</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Potïau</li> <li>- Hambyrddau</li> <li>- Bagïau</li> <li>- Peipïau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- ar y cyfan, gellir ailgylchu eitemau plastig nad ydynt yn blastig du</li> <li>- gellir ailgylchu potïau planhigion, tybiau a hambyrddau sydd wedi'u gwneud o blastig du trwy gyfrwng rhai cynlluniau 'cymryd yn ôl'</li> <li>- gellir diheintio ac aildddefnyddio eitemau plastig durol</li> </ul>
<b>Rwber</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Teïars</li> <li>- Menig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir ei ailgylchu</li> <li>- angen ei waredu mewn modd arbenigol</li> </ul>
<b>Papur a cherdyn</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Bocsys</li> <li>- Bagïau</li> <li>- Labeli</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir eu compostio a'u hailgylchu</li> <li>- yn aml mae technegau atal lleithder ychwanegol yn rhwystro hyn</li> </ul>
<b>Swbstrad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Rhisgl coconyt</li> <li>- Stwff potio</li> <li>- Compost gwyrdd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir ei ailgylchu ar ôl ei ddiheintio ac yn aml caiff maetholion eu hychwanegu</li> </ul>
<b>Gwastraff bwyd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynnyrch sydd wedi'i wrthod neu heb ei werthu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir ei roi i elusennau os yw'n addas i'w fwyta</li> <li>- ei werthu fel cynhwysyn neu fwyd anifeiliaid</li> <li>- hawdd ei gompostio os nad yw wedi'i brosesu</li> </ul>
<b>Olew</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Peiriannau ffermio a phrosesu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir ei ailgylchu</li> <li>- angen ei waredu mewn modd arbenigol</li> </ul>
<b>Eitemau electronig</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Batris</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- gellir eu hailgylchu</li> </ul>

- 
- Cetrís peiriannau argraffu
  - Offer TG
  - angen eu gwaredu mewn modd arbenigol
-

## 2. Gweld ble y caiff gwastraff ei gynhyrchu

Ar ôl ichi ganfod y mathau o wastraff a all ddeillio o'ch gweithrediadau, byddai'n fuddiol cael gwybod ble y mae'r gwastraff hwn yn digwydd yn ystod eich proses gynhyrchu. Bydd gwneud hyn yn eich helpu i flaenoriaethu'r meysydd lle y gallwch leihau gwastraff.

Mae'r diagram isod yn disgrifio dadansoddiad tri cham sy'n rhan o weithrediad garddwriaeth nodweddiadol.

**Cam 2:** Gan ddefnyddio'r rhestr o ddeunyddiau gwastraff a luniwyd gennych yn ystod Cam 1, ystyriwch ble y mae pob un yn digwydd ar sail holl gamau eich gweithrediad.

### Ffynonellu a Chyflenwi

Gall prynu a defnyddio nwyddau a gwasanaethau greu gwastraff y mae'n rhaid cael gwared ag ef. Er enghraifft, pan gaiff nwyddau eu danfon mewn deunyddiau pecynnu untro.

Gellir lleihau gwastraff trwy ei gadw mewn cof wrth ddewis cyflenwyr a thrwy ystyried o ble y cewch eich deunyddiau crai.

### Tyfu a Phrosesu

Mae gan wahanol fusnesau ddulliau cynhyrchu gwahanol, a gall gwastraff ddigwydd trwy gydol y broses hon – er enghraifft, gall atgyweirio peiriannau, planhigion a chynnyrch a wrthodir, a gormod o swbstrad, arwain at wastraff.

Gellir lleihau gwastraff trwy ganfod y mathau o wastraff y gellir eu hosgoi a chymryd camau i gael gwared â nhw o'ch prosesau cynhyrchu.

### Pecynnu a Dosbarthu

Mae pecynnu'n sicrhau y gellir storio eich cynnyrch a'i ddanfon yn ddiogel i gwsmeriaid, a hynny yn y cyflwr gorau posibl – mae hyn yn hollbwysig.

Gellir lleihau gwastraff trwy osgoi defnyddio gormod o ddeunyddiau pecynnu a thrwy roi'r gorau i ddefnyddio deunyddiau pecynnu untro.

### 3. Rheoli gwastraff

Ar ôl ichi nodi'r mathau o ddeunyddiau gwastraff a ble y maent yn digwydd, y cam nesaf yw llunio cynllun gweithredu i nodi sut y byddwch yn delio â'r gwastraff hwn.

Y senario ddelfrydol yw rhwystro'r gwastraff yn y lle cyntaf. Pan na ellir rhwystro'r gwastraff a gaiff ei greu gan eich busnes, dylech ystyried y camau hyn yn y drefn a ganlyn:

- a. **Arbed:** A allwch nodi ble yn union yn eich busnes y gallwch gymryd camau i leihau'r gwastraff y mae eich busnes yn ei greu? Er enghraifft, trwy roi cynnyrch nad yw'n cyd-fynd â'r fanyleb i elusennau, trwy ddefnyddio deunyddiau pecynnu ysgafnach, neu trwy swmp-brynu.
- b. **Ailddefnyddio:** A ellir aildefnyddio rhywfaint o'r gwastraff? Mae compostio llystyfiant gwastraff, aildefnyddio eitemau plastig, a defnyddio deunyddiau pecynnu y gellir eu dychwelyd, yn ffyrdd cyffredin ac effeithiol y gall busnesau eu rhoi ar waith i ymestyn oes deunyddiau a fyddai, fel arall, yn mynd yn wastraff.
- c. **Ailgylchu:** A allwch wahanu deunyddiau gwastraff fel y gellir eu casglu? Beth am greu manau storio a biniau ar gyfer gwahanol fathau o wastraff – wedyn, gellir eu danfon i sefydliadau casglu gwastraff cyfrifol, neu ofyn i sefydliadau o'r fath eu nôl.

**Cam 3:** Defnyddiwch eich rhestr o ddeunyddiau gwastraff a'r wybodaeth am ble y mae'r gwastraff yn digwydd (Camau 1 a 2) i ystyried camau ymarferol y gallwch eu cymryd i leihau'r gwastraff hwn neu ei atal rhag cael ei gynhyrchu.

Ar ôl mynd trwy'r camau hyn, os bydd gennych rywfaint o wastraff na ellir ei osgoi, gallwch naill ai ei anfon i safle tirlenwi neu ei losgi. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid ystyried gwneud hyn.

#### Oeddech chi'n gwybod?

- Mae'r **Economi Gylchog** yn disgrifio prosesau sy'n arwain at barhau i ddefnyddio deunyddiau mor hir ag y bo modd, gan leihau gwastraff o'r herwydd. Mae arferion da'n cynnwys compostio, lle y bydd cynnyrch a llystyfiant gwastraff yn pydru'n naturiol, a gwerthu cynnyrch salach, er enghraifft 'llyisiau di-siâp', fel cynhwysion crai.
- Wrth waredu gwastraff, rhaid ichi sicrhau eich bod yn cadw cofnod o bob derbynneb ac anfoneb a gewch gan sefydliadau casglu a gwaredu gwastraff.

#### 4. Diolchiadau a darllen pellach

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y canllaw hwn yn gywir a chyfredol ar yr adeg y cafodd ei ysgrifennu. Yn anochel, bydd pethau'n newid – datblygiadau mewn technoleg, newyddbethau, newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae busnesau garddwriaethol yn wynebu heriau unigryw, ac mae gan nifer ohonynt anghenion unigol, felly ein gobaith yw y gellir defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â'ch gwaith ymchwil eich hun er mwyn eich helpu i gymryd camau i leihau gwastraff yn eich gweithrediadau.

Mae'r canllaw hwn yn un o blith cyfres o ganllawiau ymarferol y mae **Garddwriaeth Cymru** yn eu llunio ar gyfer y diwydiant. Mae'r rhain i'w cael yn rhwydd ar-lein: <http://horticulturewales.co.uk/cy/adnoddau/packaging-and-waste-reduction/>

Dyma adnoddau ar-lein eraill a all eich helpu ar eich ffordd. Cliciwch ar y dolenni i fynd at y gwefannau allanol.

##### Polisi a deddfwriaeth

- Gellir gweld Strategaeth Wastraff Cymru: Tuag at Ddyfodol Diwastraff gan Lywodraeth Cymru yma: <https://llyw.cymru/tuag-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff>
- Mae'r ddolen hon, sy'n arwain at ganllaw gan y Llywodraeth ar ddelio â gwastraff fferm, yn cynnwys adran yn sôn am waredu deunyddiau planhigion: <https://www.gov.uk/guidance/non-hazardous-waste-treatment-and-disposal#disposing-of-plant-material>

##### Cymorth Busnes

- Sefydliad a noddir gan Lywodraeth y DU yw WRAP. Ei nod yw annog ailgylchu gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau mewn busnesau. Ceir gwybodaeth am arddwriaeth: <http://www.wrap.org.uk>
- Gwasanaeth cymorth busnes Llywodraeth Cymru yw Busnes Cymru. Mae'n cynnig cyngor ynghylch cychwyn a rhedeg busnes, a cheir dolenni'n arwain at raglenni cymorth yn y maes garddwriaeth, fel Cyswllt Ffermio a Tyfu Cymru, yn cynnwys gwybodaeth am reoli gwastraff: <https://businesswales.gov.wales/cy/rheoli-gwastraff>

##### Ffynonellau gwybodaeth eraill

Mae amrywiaeth enfawr o erthyglau i'w cael ar-lein, a rhestrir ambell un ddefnyddiol isod:

- <https://www.fwi.co.uk/livestock/a-guide-to-farm-recycling-the-options-and-costs>
- <https://www.hortweek.com/waste-management/products-kit/article/1422665>
- <https://horticulture.ahdb.org.uk/search/node/waste%20reduction>

**Cyhoeddwyd yn 2019 gan:** Garddwriaeth Cymru, [www.horticulturewales.co.uk](http://www.horticulturewales.co.uk)

**Comisiynwyd gan:** Jane Edwards, Garddwriaeth Cymru

**Awdur ac ymchwil:** Iain Cox – Ecostudio, [www.ecostudio.org.uk](http://www.ecostudio.org.uk)